# Adroddiad Cwrs Adnabod Pryfed Tarian a Thir

Ar y 7fed Medi 2013, yng Ngerddi Botaneg Treborth, cynhaliwyd cwrs adnabod Pryfed Tarian a Thir Cofnod. Daeth 15 o bobl i'r digwyddiad i gyd, o dan arweiniad yr hemipteryddion, Tristan Bantock a Joe Botting, drwy gydol y dydd.

Cafwyd cyflwyniad i Heteroptera ganTristan i ddechrau, gyda chrynodeb o'r grwpiau a'r rhywogaethau ym Mhrydain a'u bioleg. Roedd yn ddiddorol clywed bod ffawna Prydain yn gymharol symudol, gyda llawer o rywogaethau a arferai fod yn rhai prin yn ymestyn eu hamrediad erbyn hyn ac yn manteisio ar blanhigion cynnal newydd a hinsawdd fwy ffafriol.



Darparwyd hambyrddau o samplau cyfeiriol, gan gynnig cyfle i bawb weithio drwy'r allweddi adnabod a gweld y nodweddion a ddefnyddir i wahanu'r grwpiau yn y cnawd. Hefyd cawsom gyfle i weld llawer o'r rhywogaethau 'deheuol' mwy anarferol, sydd eto i'w cofnodi yng Ngogledd Cymru. Un rhywogaeth hynod drawiadol oedd *Leptoglossus occidentalis*, rhywogaeth wedi'i chyflwyno o Ogledd America ac sy'n bwydo ar goed conwydd. Dywedwyd wrthym am chwilio am y rhywogaeth nodedig yma mewn trapiau dal gwyfynod!

Cawsom ein cyflwyno gan Joe i Auchenorrhyncha a llyslau. Roedd ei frwdfrydedd dros lyslau yn heintus, ac felly aeth yr ymgyrch i chwilio am un o'r creaduriaid enigmatig hyn â ni i dir y gerddi botaneg. Cafodd y llystyfiant ei hwfro, ei daro, ei sgubo a'i balu wrth i ni chwilio am bryfed. A gyda Tristan a Joe wrth law, roedd y rhywogaethau'n cael eu hadnabod yn fuan iawn. Cadwodd y llyslau o'n ffordd ni nes i Joe lwyddo i ddod o hyd i sampl ar lwyn o ddrain gwynion. Cafodd y sampl ei phasio o'r naill i'r llall ar gyfer ei harchwilio'n fanylach gyda chwydd-wydr, er mwyn gweld y manylion.



Roedd hwn yn gyflwyniad ffantastig i Bryfed Tir Prydain ac fe adawodd pawb Dreborth y diwrnod hwnnw'n gwerthfawrogi'n llawer mwy y grŵp yma o bryfed.

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service